Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o’r gwaith bydd eich plentyn yn gwneud yn ystod y tymor nesaf.

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd eich plentyn yn cael ei annog i ddysgu a defnyddio ystod ehangach o eirfa a chystrawennau i greu effaith fwriadol yn eu gwaith ysgrifenedig a llafar. Bydd sesiynau drilio rheolaidd, gwaith grŵp a phartner, drama a thrafodaethau dosbarth yn helpu i fagu hyder ac ymwybyddiaeth o gynulleidfa. Bydd gweithgareddau darllen yn canolbwyntio ar ddatblygu rhuglder, dealltwriaeth, uwch sgiliau darllen a datblygu ymwybyddiaeth o dechnegau llenyddol. Bydd eich plentyn yn parhau i fod yn fwy ymwybodol o wahanol ieithoedd - ffocws penodol ar Ffrangeg. Yn Saesneg byddwn yn parhau i ddatblygu ffoneg dwys ac ddefnyddio genrau amrywiol wrth iddynt ddatblygu a meistroli’r ddwy iaith. Bydd ffocws ar batrymau sillafu mwy cymhleth, atalnodi cyson a dealltwriaeth o dechnegau ysgrifennu.
*Gweler y Fframwaith Llythrennedd ar ein gwefan am ragor o wybodaeth*.

## Mathemateg a Rhifedd

Rhif yw ein prif yrrwr ac mae’r sgiliau yma yn cael eu ymarfer yn gyson trwy brofiadau dysgu bywyd go iawn o fewn cyd-destunau megis mesur, defnyddio data, arian, algebra a geometreg. Rydym yn defnyddio llawer o offer ac adnoddau ymarferol a dulliau lluniadol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth y plant cyn symud ymlaen at ddulliau ysgrifenedig. Nid cael yr ateb yn gywir un unig sy’n bwysig – rydym yn annog y plant i drafod eu gwaith, egluro beth a wyddant neu beth helpodd.
*Am wybodaeth pellach, gwelwch y fframwaith rhifedd ar wefan yr Ysgol.*

## Thema

Ein thema'r tymor yma yw ‘Ein Byd Rhyfeddol.’ Bydd y dosbarth yn edrych ar effaith gweithredoedd dynol ar y byd naturiol ac yn trafod ac esbonio’n syml sut a pham mae rhai lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirweddau yn arbennig o bwysig i wahanol bobl. Bydd y plant hefyd yn dechrau adalw gwybodaeth a disgrifio prosesau sy’n arwain at newid yn y naturiol gan ddechrau defnyddio geirfa addas e.e dadgoedwigo, erydiad, cynhesu byd-eang, cynaladwyedd. Gwaith William Morris bydd yn llywio ein gwaith celf gan edrych ar liw, thôn a sut mae gwaith creadigol yn cyfleu gwahanol syniadau a theimladau. Byddwn yn dysgu sgiliau cyfryngau digidol er mwyn cyflwyno gwaith y tymor mewn wahanol ffyrdd.



## Iechyd a Lles:-

Yn ystod sesiynau ymarfer corff y tymor yma, bydd canolbwyntiad ar athletau yn arwain at y mabolgampau.
Themau Jig-so'r tymor yma yw: ‘Perthnasoedd’.

**Dosbarth: Gelert**

**Blwyddyn 4**

## Pethau i’w Cofio

-Llyfrau darllen adref Dydd Gwener ac yn ôl POB Ddydd Llun gyda chofnod darllen.
-Cit ymarfer corff ar **Ddydd Gwener**
-Coedlan- **Dydd Iau: 9/5, 6/6, 20/6**
-Defnyddio Trydar (X) er mwyn rhannu gwaith neu lwyddiannau.



www.ysgolpenalltau.com ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk @penalltau 01443 862974